# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH 5 MAWRTH 2019 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

C. Andrews, a. Angel, J. Bevan, P.J.. Bevan, L. Binding, A. Collis, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding , D. Harse, D. Havard, V. James, M. James, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, C.P. Mann, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, S. Skivens, Ms E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams a B. Zaplatynski

Ynghyd a:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), D. Beecham (Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

a:

D. Powell, S. Williams, M. Redmond ac R. Evans (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) a K. Beirne (Cyfarwyddwr y Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd).

### TREFNIADAU FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro'r rheiny oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd ar ffurf byw ac archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y cynghorwyr Mrs E. Aldworth, C. Bezzina, S. Cook, K. Dawson, N. Dix, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, D.T. Hardacre, A. Higgs, A. Hussey, L. Jeremiah, G. Johnston, Ms P. Leonard, Mrs P. Marsden, Mrs D. Price, J. Scriven a J. Taylor.

## 2. CYHOEDDIADAU’R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau a'r ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf gan gyfeirio'n benodol at wylio cynhyrchiad 'The Boy who bit the Castle', ym mhen uchaf y Cwm ac arddangosfa Addysg Gorfforol yn Ysgol Gyfun Coed Duon. Aeth hefyd fel siaradwr gwadd i 'The Inner Wheel' yng Nghaerffili ac roedd yn siomedig i orfod hysbysu'r Aelodau bod y sefydliad hwn yn dod i ben ac anogodd yr Aelodau i gefnogi ac annog sefydliadau o'r fath lle bo hynny'n bosibl.

## 3. I DDERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Derbyniodd y Maer y deisebau canlynol a gyflwynwyd gan Aelodau ar ran trigolion lleol a nododd y byddent yn cael eu cyfeirio at y Gyfadran briodol i gael sylw:

(i) Materion rheoli traffig yn Stryd Dôl-y-felin, Caerffili - Cynghorydd P. Bevan;

(ii) Mesurau tawelu traffig gwell ar Heol Bloomfield, Coed Duon - Cynghorydd A. Farina-Childs.

## 4. CYFLWYNO GWOBRAU

Ni chyflwynwyd unrhyw wobrau yn y cyfarfod.

## 5. DATGANIAD O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd A. Whitcombe fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda - Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd hyn yn fuddiant personol ac nid oedd yn rhagfarnu ac fel y cyfryw nid oedd yn ofynnol i'r Cynghorydd Whitcombe adael yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad. Cofnodir y manylion gyda'r priod eitem.

## 6. COFNODION - 22AIN IONAWR 2019

PENDERFYNWYD yn amodol ar gofnodi bod y Cynghorydd J. Bevan wedi bod yn bresennol, fod y cofnodion wedi eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac wedi eu harwyddo gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 22ain Ionawr 2019 (Rhifau Cofnodion 1 – 12).

## 7. I DDERBYN AC ATEB CWESTIYNAU O DAN REOL GWEITHDREFN 10 (2)

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cwestiynau canlynol dan Reol Gweithdrefn 10 (2). Yn unol â'r diwygiadau i'r cyfansoddiad, rhoddir yr atebion hefyd.

## 1) CONTRACTAU TG GYDA CBSC

At yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol gan y Cynghorydd Kevin Etheridge.

I ofyn i'r Aelod Cabinet restru nifer, pennawd a chostau contractau TG gyda CBSC ac a yw'n credu, er budd cost-effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, eu bod yn addas at y diben, ac a yw'n credu eu bod yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r sefydliad, ac os bydd yn diffinio pa fecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd i werthuso ac adolygu'r contractau hyn.

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD C GORDON (AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL).**

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 200 o gontractau TG o fewn y gofrestr contractau corfforaethol, er bod y gofrestr wrthi'n cael ei diweddaru. Y bwriad yw rhoi'r contractau ar y gofrestr drwy raglen rhesymoli.

Mae swyddogion o'r Gwasanaethau Digidol a Chaffael yn cydweithio i dynnu sylw at gontractau sydd â'r potensial i gael eu rhesymoli dros y tair blynedd nesaf. Bydd angen cwblhau'r rhaglen dros amser er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau cytundebol cyfredol a sicrhau y caiff ei hariannu'n gywir.

Mae'r holl gontractau cyfredol yn cael adolygiadau rheolaidd ac wedi bod yn destun caffael ffurfiol, felly, gallant ddangos gwerth am arian yn eu ffurf bresennol. Wrth symud ymlaen, bydd gwerth am arian yn rhan o'r rhaglen resymoli a fydd yn sicrhau bod yr holl systemau yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion cyflenwi yn y dyfodol.

Mae gwerth amcangyfrifedig cyfredol ein contractau TG presennol dros 5 mlynedd yn hafal i £14.6 miliwn. Fodd bynnag, nid yw hon yn gyllideb sy'n perthyn i'r adran TG ar ei phen ei hun, ac mae'r cyllidebau ar gyfer rhai systemau yn cael eu cadwamcangyfrifedig gan gyfadrannau.

Mae'r ymarfer rhesymoli contractau yn un agwedd yn unig ar yr amrywiaeth eang o waith sy'n cael ei wneud ar draws y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod yr awdurdod ym mis Awst 2018 wedi recriwtio Liz Lucas yn Bennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol a bod Liz wedi cwblhau'r penodiadau i'w huwch dîm yn ddiweddar.

Dros y misoedd nesaf, bydd Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol Ddrafft ar gyfer y Cyngor yn cael ei chwblhau a bydd yn destun ymgynghori ehangach. Bydd y Strategaeth yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio technoleg i gefnogi trawsnewid ei wasanaethau a rhyngwyneb cwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflwyno porth cwsmeriaid newydd ac ap ffôn clyfar a fydd yn galluogi defnyddwyr i wneud cais am wasanaeth 24/7 yn ogystal â chefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithio hyblyg, dod â'ch Dyfais eich hun ar gyfer Aelodau, datrysiad teleffoni newydd a chynllun peilot o Microsoft Office 365. Edrychaf ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd dros y misoedd nesaf.

**2) UWCHGYNLLUN DRAFFT YSTRAD MYNACH**

At y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith, Cynaliadwyedd a Phencampwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan y Cynghorydd Brenda Miles.

Mae'r Uwchgynllun Drafft Ystrad Mynach yn cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd. Mae hyn yn amlwg yn newyddion da i Ystrad Mynach a'i chymdogion agos, gan gynnwys Nelson. Ond a all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ynghylch ble yr ydym o ran cefnogi ffyniant ar draws y fwrdeistref ac yn fwy cyffredinol efallai ar draws y rhanbarth?

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD SEAN MORGAN, DIRPRWY ARWEINYDD AC AELOD CABINET DROS YR ECONOMI, SEILWAITH A CHYNALIADWYEDD**

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach yn symud i gyfnod o newid trawsnewidiol a buddsoddiad digyffelyb. Mae llofnodi'r Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn arwydd o fuddsoddiad digyffelyb o £1.2 biliwn ar gyfer y rhanbarth.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Prif Weithredwr Dros Dro heno yn adrodd ar waith cynnydd y Cabinet ar y Cyd o ran cyflawni mentrau'r Cytundeb Dinesig.

Dros y misoedd diwethaf, mae swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar greu'r conglfeini ar gyfer cyflawni strategaeth economaidd ac adfywio lleol sy'n gyson ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Gweithgareddau'r Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y maes hwn dros y misoedd diwethaf ac mae wedi cynnwys:

- Penodi Pennaeth Adfywio a Chynllunio newydd a chytuno ar dîm Adfywio a Chynllunio newydd â ffocws.
- Datblygu a chymeradwyo Strategaeth Adfywio'r Cyngor "Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023"
- Creu Bwrdd Prosiect Adfywio - sydd wedi datblygu Pecyn Cymorth Blaenoriaeth i brosiectau a Rhestr Prosiectau Cyfalaf Blaenoriaeth Caerffili, a bydd y ddau ohonynt yn llywio rhaglen ddarparu wedi'i blaenoriaethu a chyfres o brosiectau yn y dyfodol.
- Creu Cronfa Datblygu Adfywio gwerth £300 mil - wedi'i hategu gan gyllid datblygu pellach gwerth £1.2 miliwn a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Chwefror 2019
- Creu strategaeth fuddsoddi a gweledigaeth ar gyfer Caerffili ddi-garbon yn gweithio gyda Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys bysiau trydan a gwesty newydd.
- Cymeradwyo siop leiniau i ddatgloi parseli unigol o dir ar gyfer tai fforddiadwy, a gyflenwir drwy ddatblygwyr bach/canolig ledled y fwrdeistref sirol.
- Cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau gyda rhaglen o dai cyngor fforddiadwy newydd, a fydd yn cynnwys y technolegau ynni a digidol diweddaraf i ddarparu "cartrefi gydol oes".
- Mae gwelliannau i'r Metro wedi'u trefnu ar gyfer rheilffordd Cwm Rhymni yn ystod 2022, gan gynyddu amleddau a lleihau amseroedd teithio.
- Menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu tir yn Nhŷ Du, Nelson, ar gyfer datblygiad defnydd cymysg newydd sy'n cynnwys cartrefi newydd arloesol, tai fforddiadwy a chynllun cyflogaeth.
- Buddsoddiad pellach i gyrchfan twristiaeth Cwmcarn.
- Cynnydd sylweddol o ran darparu'r seilwaith ym Mharc Busnes Oakdale i ddiwallu anghenion busnesau newydd.
- Hynt y gwaith o ehangu Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni ar gyfer busnesau newydd a Hyb Mentergarwch Rhanbarthol Parc Busnes Caerffili mewn partneriaeth a'r Ganolfan Arloesi a Menter.

Yn gysylltiedig â hyn, mae Tasglu'r Cymoedd wedi nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhanbarth ac wedi nodi Caerffili ac Ystrad Mynach fel canolfannau strategol gyda'r blaenoriaethau o ganlyniad i ffocws Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn llunio cyfres o uwchgynlluniau, i nodi'r cyfleoedd datblygu ac adfywio ar gyfer lleoliadau strategol yn y fwrdeistref sirol yn y dyfodol. Er mwyn defnyddio cyllid Tasglu'r Cymoedd, mae'r cyntaf o'r rhain wedi'i baratoi ar gyfer ardal basn Caerffili (cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018). Mae'r uwchgynllun ar gyfer Ystrad Mynach yn cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd ac mae cynllun Blaenau'r Cymoedd wrthi'n cael ei ddatblygu, gydag uwchgynlluniau Coed Duon a Choridor Trecelyn i Risga i ddilyn. Er bod y ffocws cychwynnol wedi bod ar adfywio ffisegol, mae sylw swyddogion bellach yn troi tuag at agweddau economaidd a chymdeithasol y triongl adfywio.

Er bod hyn yn sicr yn gyfnod ariannol anodd iawn, rydym yn rhagweithiol iawn yn ein dull o weithredu – yn annibynnol a thrwy bartneriaethau fel y Cytundeb Dinesig ac o ganlyniad, mae hwn yn gyfnod cyffrous i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 8. CYFLWYNIAD - YSTADEGAU ETHOLIADOL CAERFFILI - COMISIWN FFINIAU CYMRU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyflwyniad a draddodwyd gan D. Powell, S. Williams, M. Redmond ac R. Evans o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Nodwyd y broses adolygu ac eglurwyd bod y Comisiwn yn annibynnol o Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol a'i fod yn adrodd yn uniongyrchol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Llywodraethir y Comisiwn gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a Pholisïau'r Comisiwn. Bydd yr adolygiad yn cynnig patrwm wardiau etholiadol ar gyfer ardal gyfan y Cyngor ac nid dim ond lle mae lefelau o anghydraddoldeb etholiadol. Crynhowyd y meini prawf statudol sy'n cynnwys cyflawni cydraddoldeb etholiadol, hunaniaeth gymunedol a llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn wedi datblygu polisi ar faint cynghorau gyda CLlLC a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gyfan. Nododd yr Aelodau'r diffiniad a sut y mae'r Comisiwn wedi gosod cyfyngiadau ar faint Cynghorau a sut y cymhwysir y polisi.

Eglurwyd y broses o sut y bydd y Comisiwn yn rheoli blociau adeiladu wardiau etholiadol, a thrafodwyd manteision wardiau un aelod ac aml-aelod. Hysbyswyd yr Aelodau am y dystiolaeth y bydd/na fydd y Comisiwn yn ei hystyried fel rhan o'r adolygiad. Rhoddwyd pwyslais ar y gofyniad am gynrychiolaethau effeithiol, oherwydd caiff hyn ei farnu yn ôl ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir i'r Comisiwn. Esboniwyd y gall y Cyngor helpu trwy ddarparu cynllun neu wneud awgrymiadau sy'n cael eu darparu'n ddigon cynnar yn y broses, sy'n ystyried y Sir gyfan i'r un graddau, yn nodi cysylltiadau Cymunedol ac yn dilyn y rheolau, Deddfwriaeth a Pholisïau'r Comisiwn.

I gloi, cafodd amserlen y broses adolygu ei gosod allan gyda chyfnod ymgynghori cychwynnol o 12 wythnos yn dechrau ar 7fed Mawrth 2019 i'r 29ain Mai 2019 a cham olaf y gwaith fydd y wardiau newydd a ddaw i rym ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Trafododd yr Aelodau'r broses adolygu a cheisiwyd sicrwydd y byddai'r ffigyrau a ddarparwyd drwy gydol y broses yn cael eu gwirio gan y bydd hyn yn cael effaith ddynamig ar wardiau unigol. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad yw llawer o breswylwyr ar y gofrestr etholiadol. Mae'n un o ofynion y Ddeddf y gall y Comisiwn gymryd y rhain i ystyriaeth ynghyd â ffigyrau a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a bydd yr holl ffigyrau a gasglwyd yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori. Cafwyd eglurhad yn y ffaith bod deddfau gwahanol yn gymwys i'r Alban a Chymru. O ran yr adolygiad, eglurwyd bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi rhoi cylch gwaith i'r Comisiwn gynnal yr arolwg cyn yr etholiad 2022, sy'n gyfrifoldeb statudol. Holodd Aelod a fyddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad. Bydd 3 llinyn o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer 2022 a bydd y rhai rhwng 16 a 18 mlwydd oed yn dod yn rhan o'r ail gyfran ar gyfer 2024. Dywedwyd wrth yr Aelodau na fydd y Comisiwn, mewn perthynas â wardiau un aelod, yn creu wardiau a ffiniau newydd yn artiffisial ac y caiff y wardiau cymunedol presennol eu defnyddio lle bo hynny'n bosibl. Mae hwn hefyd yn fater y gall y gweithgor ei ystyried. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurwyd y dylai Aelodau gyflwyno sylwadau ynglŷn â'u wardiau eu hunain yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, pryd y caiff y cynigion drafft eu hystyried.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch ystyried uno wardiau ac eglurwyd y gallai hyn fod yn rhywbeth i'r Comisiwn ei ystyried os oes angen gwella amrywiaethau etholiadol. O ran cynghorwyr tref a chymunedol, nodwyd na fydd y trefniadau hyn yn cael eu hystyried o fewn yr arolwg hwn oni bai y ceir newid i'r ffin a'r effaith ganlyniadol ar y cynghorau cymunedol o fewn arolwg cymunedol. Ni fydd y Comisiwn yn cynnig unrhyw wardiau 4 aelod newydd, gallant gadw'r 2 ward bresennol os cânt eu cefnogi oni bai bod y Cyngor yn cynnig trefniadau eraill.

Diolchodd y Maer i gynrychiolwyr y Comisiwn Ffiniau am y cyflwyniad manwl ac am ymateb i gwestiynau yn ystod y drafodaeth. Nododd yr Aelodau gynnwys y cyflwyniad.

## 9. AROLWG ETHOLIADOL O GAERFFILI

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr adroddiad yn gryno gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r eitem flaenorol a phwysleisiodd y neges glir ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn gweithio gyda'r Comisiwn wrth symud ymlaen â'r adolygiad hwn. Diben yr adroddiad yw sefydlu gweithgor i ddrafftio cynigion i'w cyflwyno i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fel rhan o arolwg etholiadol y fwrdeistref sirol. Ar ôl ei sefydlu, bydd y gweithgor yn rhoi adroddiad ar ei gynigion i gyfarfod y Cyngor ar 4ydd Mehefin 2019 ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor. Rhaid anfon y cynigion at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru erbyn 5ed Mehefin, i'w ystyried. Mae'r adroddiad yn hysbysu'r Aelodau am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad. Pwysleisiodd Arweinydd y Cyngor yr angen i drefnu cyfarfodydd y gweithgor cyn gynted â phosibl.

PENDERFYNWYD:-

(i) Dylid nodi'r amserlen fras ar gyfer yr adolygiad a sefydlu gweithgor aelod/swyddog sy'n cynnwys y canlynol:-

- Y Cynghorydd David Poole, Arweinydd y Cyngor a 3 aelod arall o'r grŵp Llafur
- Y Cynghorydd Colin Mann, arweinydd Plaid Cymru ynghyd ag 1 aelod arall o grŵp Plaid Cymru
- Y Cynghorydd Kevin Etheridge, y Grŵp Annibynnol
- Mr Rob Tranter – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro
- Mr David Beecham, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol

(ii) y gweithgor i gyflwyno adroddiad ar ei gynigion i gyfarfod y Cyngor ar 4ydd Mehefin 2019 ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor. Yna caiff y cynnig ei anfon at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, erbyn 5ed Mehefin 2019, i'w ystyried.

## 10. Y CYTUNDEB DINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Datganodd y Cynghorydd A. Whitcombe fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod wedi rheoli prosiect sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Dinesig. Cynghorodd y Swyddog Monitro fod hyn yn fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu ac, oherwydd hynny, nid oedd yn ofynnol i'r Cynghorydd Whitcombe adael yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad, a gallai gymryd rhan yn y ddadl a'r bleidlais.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cyflwyniad a draddodwyd gan Ms K. Beirne (Cyfarwyddwr y Cytundeb Dinesig). Roedd y cyflwyniad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflymder a chynnydd y Cytundeb Dinesig hyd yma ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i'r economi fyd-eang. Nododd yr heriau a wynebwyd a'r cryfderau allweddol hefyd. Trafodwyd y pwyntiau allweddol o gynnydd ac esboniwyd y canllawiau buddsoddi. Darparwyd enghraifft lle buddsoddwyd arian sylweddol mewn Prosiect Lled-Ddargludyddion cyfansawdd yng Nghasnewydd gan y Cytundeb Dinesig a Chronfa Fuddsoddi Ehangach y Cytundeb Dinesig. Nododd Ms Beirne y manteision lu y mae'r prosiect hwn wedi'u creu o ran economi a chreu swyddi yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y Metro Plus a'r rhaglen newydd gyda'r nod o ddiogelu seilwaith yn y dyfodol a mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhanbarthol o gwmpas y Metro. I gloi, rhoddodd grynodeb o fanteision 'Beth sydd yn hyn i Gaerffili'. Diolchodd y Maer i'r Cyfarwyddwr am ddod i Gyfarfod y Cyngor a chyflwyno'r cyflwyniad manwl.

Crynhodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau fod y Cytundeb Dinesig yn cynnwys buddsoddiad o £1.2 biliwn, gan gynnwys datblygu Metro De Cymru; cymorth ar gyfer arloesi a seilwaith digidol; datblygu sgiliau a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith; hyrwyddo menter a thwf busnesau; a gweithgarwch ehangach ym maes adfywio a thai. Mae ganddi uchelgais i ddarparu 25,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth ac ysgogi hyd at £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a chynnydd o 5% o ran Gwerth Ychwanegol Gros. Ers ei sefydlu yn ôl yn 2017, mae seiliau'r Cytundeb Dinesig wedi esblygu'n sylfaenol. Yn arbennig, yn ystod y misoedd diwethaf, cynhaliwyd asesiad o "sefyllfa barod" y rhaglen ar gyfer y cyfnod nesaf o'i defnyddio. Mae hyn wedi cynnwys canolbwyntio ar ffactorau llwyddiant critigol craidd megis gwella dylanwad gyda buddsoddwyr a chyllidwyr; cynyddu'r aliniadau strategol er mwyn ysgogi buddsoddiad newydd; yr angen am ddata da i gefnogi penderfyniadau; a Chynllun Twf Economaidd a Diwydiannol newydd i osod cyfeiriad. Ymhlith y prif heriau mae'r ymdeimlad o frys ynghylch effaith gwyro oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd, colli cronfeydd strwythurol a'r angen i gystadlu â rhanbarthau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau adnoddau – drwy Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU – y ganolfan newydd o fuddsoddiadau economaidd ac arloesi rhanbarthol. Yn y cyd-destun hwn, mae gan y Cytundeb Dinesig arwyddocâd newydd – y tu hwnt i raglen ariannu. Mae angen creu mwy o gadernid; y gallu i gystadlu; yr angen i "ganolbwyntio ar herio" ac yn cynyddu cynaliadwyedd economaidd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ymyriadau y mae'r Cytundeb Dinesig wedi eu rhoi ar waith i sicrhau ei bod mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn gwella ffyniant y rhanbarth ar sail gynaliadwy.

Ychwanegodd yr Arweinydd, a oedd yn cefnogi'r adroddiad a'r argymhelliad, ei fod yn credu bod y Cytundeb Dinesig wedi dod yn uchelgeisiol ac mai'r Cytundeb Dinesig fydd un o'r pethau gorau sydd wedi digwydd i Gaerffili.

Trafododd yr Aelodau gyflwyniad yr adroddiad a'i gynnwys. Dywedodd Aelod ei fod yn teimlo bod y cyflwyniad wedi magu hyder a bod angen cyfleoedd ar Gaerffili ar gyfer prosiectau 'ar y silff'. Mae rhai Aelodau wedi teimlo eu bod wedi ymddieithrio oddi wrth y broses gan nad ydynt wedi cael gwybod am gynigion nac wedi ymgynghori arnynt cyn i argymhellion gael eu gwneud. Mewn ymateb, dywedodd swyddogion fod y Bwrdd yn ei gyfnod cynnar ac y bydd ymgysylltu a chyfathrebu â'r Aelodau yn digwydd wrth symud ymlaen. Cafwyd eglurhad mewn ymateb i nifer o gwestiynau a godwyd gan Aelodau a oedd yn cynnwys swyddogaeth cefn swyddfa'r Cytundeb Dinesig. Cadarnhawyd nad yw'r staff wedi cael eu recriwtio eto am fod angen cyflwyno strwythur arfaethedig i'r Cabinet Canolog a fydd yn cynnwys cymysgedd o brofiadau yn y sector preifat a chyhoeddus a fydd yn cynnig set sgiliau amrywiol. Bydd naw aelod o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn bresennol yn y gynhadledd MIPIM yr wythnos nesaf sef prif ddigwyddiad eiddo a thir y byd a bydd Caerffili yn cael ei chynrychioli gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro. Bydd digwyddiadau a gweithdai yn cael eu mynychu gyda'r bwriad o gyflwyno cryfderau cystadleuol o bob un o'r meysydd sy'n cael eu cynrychioli.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi ac y dylid cymeradwyo rhaglen y Cytundeb Dinesig fel y'i diffiniwyd gan gyd-Gabinet y Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**11. CYHOEDDI'R DATGANIAD POLISI CYFLOG 2019/20 A GWEITHREDU STRWYTHUR CYFLOGAU A GRADDIO NEWYDD Y CYDGYNGOR CENEDLAETHOL**

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i'r Aelodau ei bod yn dderbyniol i swyddogion aros yn y Siambr gan nad oedd eu telerau a'u hamodau unigol yn cael eu penderfynu.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a chytuno ar y polisi cyflog blynyddol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar gyfer cyhoeddi Polisi Cyflog 2019/20 yr Awdurdod a hefyd cymeradwyaeth i weithredu a chyhoeddi Strwythur Cyflog a Graddio newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y Cydgyngor Cenedlaethol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu eu Polisi Cyflog a'i wneud yn gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar Dâl y Prif Swyddogion (gan gynnwys rhoi'r gorau i ddal y swydd), a hefyd mewn perthynas â'r "cyflogau isaf" yn y Cyngor, esbonio'u Polisi ar y berthynas rhwng taliadau i Brif Swyddogion a grwpiau eraill. Mae'r darpariaethau yn Neddf Lleoliaeth 2011 sy'n ymwneud â datganiadau Polisi Cyflog ond yn berthnasol i gyflogeion a gaiff eu penodi a'u rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor. Felly, nid yw'n ofynnol i weithwyr sy'n cael eu penodi a'u rheoli gan benaethiaid ysgol/Cyrff Llywodraethu gael eu cynnwys o fewn cwmpas datganiadau'r Polisi Cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa unigryw o ran deddfwriaeth cyflogaeth lle mae pob cyflogai ysgol yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol, ond penaethiaid/cyrff llywodraethu sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch penodi a rheoli gweithwyr o'r fath yn bennaf, fel sy'n briodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod strwythur Cyflogau a Graddio'r Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi'i gyflawni drwy gytundeb ar y cyd â'r undebau llafur, a'i roi ar waith o 1af Ebrill 2009. Darparodd dyfarniad cyflog y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer 2018–20 yr amod bod Awdurdodau Lleol yn gorfod gweithredu strwythur cyflog a graddio newydd o'r 1af Ebrill 2019 h.y. ail flwyddyn y dyfarniad cyflog y cytunwyd arno. Cyfeiriwyd yr Aelodau at atodiad 2 a thudalen 10 yn atodiad 1 sy'n gosod strwythur tâl a graddio arfaethedig diwygiedig y Cydgyngor Cenedlaethol yn sgil cytundeb ar y cyd â'r undebau llafur. Er mwyn lleihau'r aflonyddwch a'r dryswch i weithwyr, mae'r Cyngor wedi seilio strwythur cyflog a graddio arfaethedig y Cydgyngor Cenedlaethol o amgylch graddfa dâl 1af Ebrill 2019 y Cydgyngor Cenedlaethol heb unrhyw amrywiad lleol. Nodir prif bwyntiau'r strwythur cyflog newydd ym mharagraff 5.14 yr adroddiad.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu i'r swyddogion am y gwaith caled a wnaed wrth gwblhau'r Polisi Cyflog.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i symudwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog.

Yna symudwyd ac eiliwyd diwygiad, gan fod bandiau cyflog penodol fel y'u nodir yn Atodiad D i'r adroddiad (y bandiau hynny yn amrywio o'r Prif Weithredwr i lawr i fand B) yn cael eu rhewi ar unwaith. Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.5 (1), gwnaed cais am bleidlais wedi'i chofnodi, ac fe'i cymerwyd â llaw gan y Swyddog Monitro.

O blaid y cynnig:

Cynghorwyr P.J. Bevan, L. Binding, D. Cushing, M. Davies, C. Elsbury, K. Etheridge, A. Farina-Childs, R.W. Gough, M. James, S. Kent, C.P. Mann, B. Owen, T. Parry, Mrs M.E Sargent, G. Simmonds, S. Skivens, L G. Whittle (17)

Yn erbyn y cynnig:

Cynghorwyr M. Adams, C. Andrews, J. Bevan, A. Collis, C. Cuss, W. David, M. Evans, Mrs C. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, L. Harding, D. Harse, D. Havard, V. James, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver , Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Simmonds, Miss E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, W. Williams a B. Zaplatynski (32).

Felly, collwyd y diwygiad.

Yna cymerwyd y cynnig gwreiddiol drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 15 yn

erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

i) Bod y Datganiad Polisi Cyflog 2019/20 (Fersiwn 8) yn cael ei gytuno a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

ii) Y dylid cytuno i dalu cyfradd yr awr Cyflog Byw Sylfaenol o £9.00 yn weithredol o 1af Tachwedd 2018.

iii) Dylid cytuno ar strwythur diwygiedig y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer cyflog a graddio a'i roi ar waith o'r 1af Ebrill 2019.

iv) Dylid cytuno ar yr egwyddor o gymathu ac yna cynyddu'r broses o drosglwyddo staff i'r strwythur cyflogau a graddio diwygiedig o'r 1af Ebrill 2019.

## 12. HEPGOR Y RHEOL 6 MIS YNGHYLCH PRESENOLDEB CYNGHORWYR

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i ganiatáu estyniad i'r Rheol Presenoldeb chwe mis ar gyfer y Cynghorydd Dianne Price yn unol ag Adran 85 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r Cynghorydd Dianne Price wedi llwyddo i fynychu cyfarfod o'r Cyngor ers yr 20fed Medi 2018 oherwydd salwch helaeth a thriniaeth feddygol barhaus. Derbyniwyd cais gan Swyddog Monitro'r Cyngor i ystyried cymeradwyo estyniad i'r Rheol Presenoldeb chwe mis arferol er mwyn galluogi'r Cynghorydd Price i aros yn ei swydd nes ei bod yn gallu ailddechrau dyletswyddau arferol pan fydd yn dychwelyd i gyflwr iechyd da. Roedd aelodau o bob un o'r grwpiau gwleidyddol yn cefnogi'r argymhelliad yn llwyr yn yr adroddiad ac yn estyn eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Price.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i symudwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog. Cytunwyd yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

Penderfynwyd y caiff absenoldeb cyfredol o holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau y Cynghorydd Dianne Price, o ganlyniad i'w salwch, eu hawdurdodi a'u cymeradwyo am gyfnod pellach o chwech mis sy'n dod i ben ar 20fed Medi 2019, neu hyd nes y bydd yn ailddechrau ei phresenoldeb os yw hynny'n gynharach, yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 13. HYSBYSIAD O GYNNIG – ABSENOLDEB RHIENI I GYNGHORWYR

Rhoddwyd ystyriaeth i'r hysbysiad o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd A. Leonard ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr P. Marsden, E. Stenner ac L. Phipps. Cyflwynwyd yr hysbysiad o gynnig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 6ed Chwefror 2019 ac mae'n bodloni'r meini prawf a nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

Nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod yr hysbysiad o gynnig yn gofyn i'r Cyngor alw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried yr hawliau presennol o ran absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu i gynghorwyr, fel y deddfwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Rhan 2) a bod y Cyngor yn anfon y Polisi Absenoldeb Rhieni drafft ar gyfer Cynghorwyr (a atodwyd i'r adroddiad) at Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Diben yr hysbysiad o gynnig yw rhoi hawl decach i gynghorwyr gael absenoldeb rhieni ar ôl rhoi genedigaeth neu fabwysiadu a sicrhau bod cynghorwyr sydd â phlant ac ymrwymiadau gofalu

eraill yn cael cymorth fel y bo'n briodol.  Cefnogodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr hysbysiad o gynnig.

Lleisiodd yr Aelodau eu cefnogaeth mewn perthynas â'r hysbysiad o gynnig a chytunwyd bod y cynnig gwreiddiol i adlewyrchu'r cynigion yn gydradd â'r Polisi Absenoldeb Rhieni sydd ar gael i Swyddogion y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i symudwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog.  Cytunwyd yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD y dylid cefnogi'r hysbysiad o gynnig.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Ebrill 2019, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

MAER